

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Meddygol Ringland, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 17 Hydref 2025

Dyddiad cyhoeddi: 17 Ionawr 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	• Ansawdd Profiad y Claf	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Meddygol Ringland, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 17 Hydref 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd cymheiriaid rheolwyr practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 16 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd 11 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis wedi symud i safle pwrpasol newydd yn ddiweddar. Roedd yr amgylchedd yn fodern, yn lân yr olwg ac yn groesawgar.

Roedd adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cytuno bod y clinigydd yn esbonio pethau'n dda iddynt, eu bod yn teimlo ei fod yn gwrando arnynt, a'u bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Roedd amrywiaeth o gyngor hybu iechyd wedi'i arddangos ym mhob rhan o'r practis ac roedd y practis yn darparu amrywiaeth eang o glinigau ar gyfer rheoli cyflyrau cronig, gan gynnwys adolygiadau blynyddol.

Roedd y system apwyntiadau yn galluogi asesiadau clinigol a blaenoriaethu apwyntiadau effeithiol. Er mai dim ond hanner y cleifion a ymatebodd i'n harolwg a ddywedodd wrthym eu bod yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod ac apwyntiad rheolaidd pan oedd angen un arnynt, cadarnhaodd staff y practis ac aelodau o'r grŵp cyfranogiad cleifion fod system ffôn newydd wedi gwella mynediad i apwyntiadau yn sylweddol.

Cafodd nifer bach o feysydd i'w cryfhau eu nodi mewn perthynas â phreifatrwydd sgysiau yn y dderbynfa, y broses o gynnig a chofnodi hebryngwyr, a chofnodi anghenion iaith a chyfathrebu.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod cleifion yn ymwybodol bod ystafell ochr wrth ymyl y dderbynfa ar gael er mwyn cael sgysiau preifat.
- Sicrhau bod y broses o gynnig a chofnodi hebryngwyr yn cael ei chwblhau
- Cofnodi anghenion iaith a chyfathrebu cleifion yn rheolaidd, gan gynnwys nodyn atgoffa am ddarpariaeth Language Line.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amrywiaeth o gyngor hybu iechyd wedi'i arddangos ym mhob rhan o'r practis
- Roedd y practis yn cynnal amrywiaeth eang o glinigau ar gyfer rheoli cyflyrau cronig.
- Roedd y system apwyntiadau yn galluogi asesiadau clinigol a blaenoriaethu apwyntiadau effeithiol.

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis wedi'i adeiladu'n bwrpasol, ac roedd yr amgylchedd yn addas at y diben. Roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad, gan gynnwys diogelwch tân a phrofi cyfarpar.

Roedd y practis yn lân yr olwg ac yn daclus. Cafodd y gwaith o lanhau ardaloedd clinigol ei gwblhau i safon dda, ac mae amserlenni glanhau ar waith. Roedd gan y staff nyrsio a'r gweithwyr cymorth gofal iechyd rolau a chyfrifoldebau clir mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, a gafodd eu deall yn dda.

Roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer rheoli brechlynnau a meddyginiaethau eraill. Roedd staff y practis yn gwybod sut i ymateb i argyfwng meddygol, fel achos o glaf yn llewygu. Roedd cyfarpar a chyffuriau brys yn cael eu stocio'n briodol, eu gwirio'n rheolaidd, ac ar gael yn hawdd.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu. Cafodd hyn ei ategu gan broses ddiogelu briodol, gyda hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r lefel berthnasol yn unol â rolau a chyfrifoldebau.

Cynhaliodd y practis amrywiaeth o fforymau clinigol i ddiwallu anghenion y practis a'r cleifion, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol y practis a nyrsio, gofal lliniarol, diogelu a chyfarfodydd digwyddiadau o bwys. Cafodd cyfarfodydd atgyfeirio canser brys eu cynnal hefyd, a gafodd ei ystyried yn arfer da.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf a gwelsom eu bod wedi'u cwblhau i safon glinigol dda. Cafodd yr holl nodiadau eu codio'n briodol ac roeddent yn cynnwys naratif cynhwysfawr, a fyddai'n galluogi meddyg teulu locwm i ddarparu parhad gofal da.

Gwnaethom edrych ar sampl o nodiadau cleifion gan Uwch-ymarferydd Nyrsio. Cafodd y rhain eu cwblhau i safon ganmoladwy, gan ddangos asesiadau clinigol ac ymarfer trylwyr.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod glanhau lefel uwch yn cael ei gynnwys ar amserlenni glanhau
- Sicrhau na chaiff y silindrau ocsigen eu storio'n uniongyrchol ar y llawr
- Ystyried archwiliad yn y dyfodol ar gysylltu meddyginiaethau a pharhau i wella nifer yr adolygiadau o feddyginiaethau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd pob rhan o'r practis yn ymddangos yn lân, yn drefnus ac yn daclus, ac mae amserlenni glanhau ar waith i gynnal hyn
- Roedd amrywiaeth o fforymau a chyfarfodydd clinigol yn diwallu anghenion y practis a'r cleifion yn dda
- Roedd nodiadau clinigol yn cael eu cwblhau i safon dda.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd tîm rheoli'r practis yn dangos gwybodaeth dda am redeg y practis yn effeithiol, ac roedd partneriaid y practis yn ymgymryd â rôl arwain ragweithiol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda.

Roedd adborth gan y staff yn gadarnhaol ar y cyfan, ond mae rhywfaint o feysydd i'r practis fyfyrion arnynt mewn perthynas â gofynion croes o ran amser, digonolrwydd staffio, a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith. Er gwaethaf hyn, roedd adborth mewn perthynas â llesiant y staff yn gadarnhaol.

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth ddiweddar i ddangos bod amrywiaeth o hyfforddiant wedi cael ei gwblhau. Fodd bynnag, gwelsom fod nifer yr arfarniadau staff neu'r adolygiadau blynyddol yn isel, a dylai'r practis ddefnyddio hyn fel cyfle i nodi unrhyw anghenion hyfforddiant neu ddatblygiad staff.

Roedd dull cadarnhaol o ymdrin ag archwiliadau clinigol a phrosiectau gwella ansawdd, yn seiliedig ar anghenion y practis a'r boblogaeth leol. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o archwiliadau meddyginiaeth a gynhaliwyd gan fferyllydd y practis.

Roedd y practis yn ymwybodol iawn o anghenion y boblogaeth leol, a oedd yn cynnwys lefelau uchel o amddifadedd, trefniadau rheoli iechyd cymhleth a chronig, a phoblogaeth gleifion amrywiol. Roedd y practis yn gweithio ar y cyd â gwasanaethau a phractisau eraill yn y clwstwr i wella a chryfhau gwasanaethau er mwyn diwallu'r anghenion hyn.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod grŵp cyfranogiad cleifion wedi cael ei sefydlu'n ddiweddar. Roedd dau aelod o'r grŵp y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y deialog parchus a chadarnhaol sydd wedi cael ei gynnal hyd yma.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi arfarniadau neu adolygiadau blynyddol ar waith i sicrhau y gellir nodi anghenion hyfforddiant neu ddatblygiad y staff

- Ystyried defnyddio asesiadau neu wasanaethau iechyd galwedigaethol ar gyfer staff newydd a phresennol

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Tîmau o staff rheoli ac arwain da a oedd yn ymddangos yn ymrwymedig i ofal cleifion
- Roedd ymatebion i'r arolwg staff mewn perthynas â llesiant yn gadarnhaol
- Tystiolaeth o weithio mewn partneriaeth i gefnogi anghenion a chanlyniadau cleifion.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cawsom 16 o ymatebion i'r arolwg cleifion. Dywedodd tri chwarter o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth a gawsant yn 'dda' neu'n 'dda iawn'.

Rhoddyd amrywiaeth o sylwadau. Roedd sampl gynrychioliadol o sylwadau yn cynnwys y canlynol:

"Cwrtais iawn bob amser"

"Mae'r gwasanaeth wedi gwella'n sylweddol dros y 12 mis diwethaf"

"Mae angen i staff y dderbynfa ddangos ychydig bach mwy o empathi ac ystyriaeth gan fy mod i'n cael argyfwng iechyd meddwl..."

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Roedd amrywiaeth o gyngor hybu iechyd wedi'i arddangos ym mhob rhan o'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am anhwylderau cyffredin, ymgyrchoedd sgrinio a gwasanaethau cymorth lleol. Roedd y wybodaeth yn gyfredol ac o ansawdd da.

Roedd y practis yn cynnal amrywiaeth eang o glinigau ar gyfer rheoli cyflyrau cronig, gan gynnwys adolygiadau blynyddol ac yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ychwanegol. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu gan feddygon teulu, tîm nyrsio a oedd yn cynnwys ymarferwyr nyrsio uwch a nyrsys y practis, yn ogystal â gweithwyr cymorth gofal iechyd, tynwyr gwaed, a fferyllwyr.

Roedd y practis yn cadw cysylltiadau proffesiynol agos ag amrywiaeth o wasanaethau bwrdd iechyd, cymunedol a gwirfoddol. Roedd hyn yn cynnwys nyrsys ardal, ymwelwyr iechyd a bydwagedd. Roedd y practis wedi'i gyd-leoli ag amrywiaeth o wasanaethau cymunedol eraill, sy'n helpu gofal amserol a chydgyssylltiedig ar gyfer y gymuned leol.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd y practis wedi symud i safle pwrpasol newydd yn ddiweddar. Roedd yr amgylchedd yn fodern, yn lân yr olwg ac yn groesawgar. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cyfeillgar rhwng y staff a'r cleifion, a gwelsom fod staff y dderbynfa yn ymgysylltu â chleifion yn dawel. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a ymatebodd i'r arolwg y byddent yn croesawu rhagor o breifatrwydd wrth ymgysylltu â staff y dderbynfa.

Dylai'r practis sicrhau bod cleifion yn ymwybodol bod yr ystafell ochr wrth ymyl y dderbynfa ar gael i gynnal sgysiau preifat.

Roedd galwadau ffôn ar gyfer apwyntiadau yn cael eu hateb mewn swyddfa breifat i ffwrdd o'r ardaloedd cyhoeddus.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn cytunobod y clinigydd yn esbonio pethau'n dda iddynt, eu bod yn teimlo ei fod yn gwrando arnynt, a'u bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Fodd bynnag, roedd nifer o sylwadau gan gleifion yn mynegi eu profiad o'r staff sy'n gyfrifol am lywio gofal ac y gellid gwella'r broses o drefnu apwyntiadau dros y ffôn.

Gwelsom fod posteri hebryngwr yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r practis i roi gwybod i gleifion am eu hawl i ddod â rhywun gyda nhw yn ystod archwiliadau. Mewn cofnodion a welsom ar gyfer dau glaf lle mae archwiliad personol wedi'i gynnal, ni chofnodwyd y cynnig o hebryngwr na'r penderfyniad i'w dderbyn ai peidio.

Dylai'r practis sicrhau bod y cynnig o hebryngwr a'r penderfyniad i'w dderbyn ai peidio yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion, yn unol â'r canllawiau a osodwyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Amserol

Gofal amserol

Roedd y system apwyntiadau yn galluogi asesiadau clinigol a blaenoriaethu apwyntiadau effeithiol. Gofynnwyd i'r cleifion gysylltu â'r practis erbyn 10.00 bob bore, cyn i feddygon teulu frysbennu a rhoi'r canlyniadau i'r cleifion. Gallai hyn gynnwys apwyntiadau ar yr un diwrnod, apwyntiad arferol yn y dyfodol, cyngor neu gyfeiriad at weithiwr gofal iechyd proffesiynol mwy priodol. Mae hyn yn helpu i sicrhau mynediad teg i adnoddau'r practis, yn seiliedig ar anghenion clinigol.

Dywedoddtua hanner y cleifion a ymatebodd i'n harolwg wrthym eu bod yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod ac apwyntiad rheolaidd, ond dywedodd dros hanner ohonynt wrthym nad oedd hyn y math o apwyntiad a ffefrir ganddynt.

Cytunodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn fodlon ar oriau agor y practis ac yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau y tu allan i oriau.

Gwnaethom siarad â staff y practis ac aelodau o'r grŵp cyfranogiad cleifion a gadarnhaodd fod system ffôn newydd wedi helpu cleifion yn fawr i drefnu apwyntiadau o'u dewis yn llwyddiannus.

Ar gyfer cleifion ag argyfyngau meddygol neu frys, mae'r practis yn eu cyfeirio at 999. Ar gyfer argyfyngau meddygol eraill, roedd y meddyg ar alwad a oedd ar ddyletswydd yn adolygu anghenion y cleifion mewn modd amserol.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Cadarnhaodd y staff y byddent yn diwallu unrhyw anghenion iaith neu gyfathrebu hysbys a'u bod yn ymwybodol o wasanaethau megis Language Line. Fodd bynnag, gwnaethom nodi mai dim ond nifer cyfyngedig o gofnodion y cleifion oedd yn cynnwys dewis iaith y claf. Mewn un cofnod claf, nid oedd y defnydd o Language Line wedi cael ei ddefnyddio yn ystod archwiliad o'r claf, a fyddai wedi cael ei gynghori gan ystyried natur y cyflwyniad.

Dylai'r practis sicrhau bod dewis iaith yn cael ei gofnodi'n rheolaidd a bod y staff yn cael eu hatgoffa i ddefnyddio Language Line a sut i gael gafael ar hyn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd y practis wedi'i adeiladu'n bwrpasol, ac roedd yr amgylchedd yn addas at y diben. Er bod y practis ar y llawr cyntaf, roedd lifft ar gael er mwyn mynd i'r holl ystafelloedd ymgynghori a'r clinigau.

Roedd cyfarpar canfod tân priodol ar waith ac roedd profion offer cludadwy (PAT) yn cael eu cynnal ar eitemau trydanol i sicrhau eu bod yn parhau'n ddiogel ac yn effeithiol.

Roedd y staff yn gallu gofyn am gymorth brys o'u hardaloedd clinigol unigol. Pan ofynnwyd iddynt, dywedodd y staff eu bod yn gyfarwydd â'r broses hon a sut i ymateb.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd y practis yn lân yr olwg ac yn daclus. Cafodd y gwaith o lanhau ardaloedd clinigol ei gwblhau i safon dda, ac mae amserlenni glanhau ar waith. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y caiff glanhau arwynebau ar lefel uwch ei gynnwys ar yr amserlenni hyn.

Dylai'r gwasanaeth sicrhau y caiff glanhau lefel uwch ei gynnwys ar ei amserlenni.

Roedd gan y staff nyrsio a'r gweithwyr cymorth gofal iechyd rolau a chyfrifoldebau clir mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, a gafodd eu deall yn dda. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant atal a rheoli heintiau sy'n berthnasol i'w rolau.

Roedd yn gadarnhaol gweld archwiliadau, gan gynnwys archwiliadau Techneg Ddifyffwrdd Aseptig, yn cael eu cwblhau a'u sgorio'n dda. Fodd bynnag, byddem yn argymhell bod y practis yn cwblhau archwiliad atal a rheoli heintiau blynyddol sy'n cwmparu'r practis cyfan i sicrhau bod arferion da yn cael eu cynnal ym mhob rhan o'r practis.

Roedd gwastraff clinigol, gan gynnwys eitemau miniog, yn cael ei wahanu'n briodol a'i storio'n ddiogel.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer rheoli brechlynnau a meddyginiaethau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys prosesau archebu, gwirio stoc a gwirio tymheredd yr oergell, a gwybodaeth am yr hyn i'w wneud pe bai problem gyda'r gadwyn oer.

Roedd staff y practis yn gwybod sut i ymateb i argyfwng meddygol, fel achos o glaf yn llewygu. Roedd cyfarpar a chyffuriau brys yn cael eu stocio'n briodol, eu gwirio'n rheolaidd, ac ar gael yn hawdd. Fodd bynnag, byddem yn awgrymu y byddai'n well storio cyffuriau brys mewn ardal heblaw ystafell ymgynghori i ystafell lle gallai archwiliadau a gweithdrefnau eraill gael eu cynnal. Cafodd y silindrau ocsigen eu storio'n gywir, heblaw am y rhai sydd wedi'u lleoli yn y storfa.

Dylai'r practis sicrhau na chaiff y silindrau ocsigen eu storio'n uniongyrchol ar y llawr.

Gwnaethom edrych ar sampl o'r cyfarwyddiadau ar gyfer grwpiau cleifion, sy'n rhoi awdurdod cyfreithiol i weithwyr iechedd proffesiynol cofrestredig, ar wahân i ymarferwyr cyffredinol, i gyflenwi a rhoi meddyginiaethau penodol i grŵp cleifion rhagddiffiniedig. Cafodd y rhain eu llofnodi a'u cwblhau'n briodol.

Roedd y staff yn ymwybodol o sut i ymateb pe bai anaf wedi'i achosi gan nodwydd yn digwydd. Nid oedd siart lif ar gael yn hawdd yn y clinig ond cafodd hyn ei ddatrys ar ddiwrnod yr arolygiad.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd y staff yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu. Roedd proses a pholisi diogelu priodol yn ategu hyn.

Roedd hyfforddiant i'r lefel berthnasol wedi cael ei ddarparu i'r staff yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, byddem yn awgrymu bod rheolwyr y practis yn cwblhau hyfforddiant lefel dau. Roedd yn gadarnhaol nodi bod yr arweinydd diogelu clinigol wedi cwblhau hyfforddiant y tu hwnt i'r gofynion sylfaenol.

Cafodd cyfarfodydd diogelu'r practis eu cynnal, a oedd yn cynnwys mynychwyr priodol a chadwyd y cofnodion yn briodol.

Roedd yn gadarnhaol gweld y gwasanaeth yn rhoi fflagiau system ar gofnodion aelodau o deuluoedd a brodyr neu chwiorydd yn rheolaidd mewn achosion o bryderon o ran amddiffyn plant neu ddiogelu.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Nodwyd gennym fod y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol yn gweithio'n effeithiol. Roedd tystiolaeth o galibradu cyfarpar drwy contractau â gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr perthnasol.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Cynhaliodd y practis amrywiaeth o fforymau clinigol i ddiwallu anghenion y practis a'r cleifion, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol y practis a nyrsio, gofal lliniarol, diogelu a chyfarfodydd digwyddiadau o bwys. Cafodd cyfarfodydd atgyfeirio canser brys eu cynnal hefyd, a gafodd ei ystyried yn arfer da.

Gwelsom broses amserol ac archwiliadwy ar gyfer ymdrin ag atgyfeiriadau a gohebiaeth arall i mewn ac allan o'r practis ar gyfer gofal eilaidd a gweithwyr proffesiynol eraill.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf a gwelsom eu bod wedi'u cwblhau i safon glinigol dda. Cafodd yr holl nodiadau eu codio'n briodol ac roeddent yn cynnwys naratif cynhwysfawr, a fyddai'n galluogi meddyg teulu locwm i ddarparu parhad gofal da.

Byddem yn argymhell archwiliad o gysylltu meddyginiaethau yn y dyfodol er mwyn parhau i wella'r broses o gynllunio triniaethau a chadw cofnodion. Roedd adolygiadau o feddyginiaethau gan y fferylllydd yn y practis wedi cael eu cwblhau mewn pedwar o'r deg cofnod a welsom a dylai'r practis barhau i wneud ymdrechion i atgyfnerthu hyn.

Dylai'r practis ystyried archwiliad yn y dyfodol ar gysylltu meddyginiaethau a pharhau i wneud ymdrechion i wella nifer yr adolygiadau o feddyginiaethau.

Gwnaethom edrych ar sampl o nodiadau cleifion gan Uwch-ymarferydd Nyrsio. Cafodd y rhain eu cwblhau i safon ganmoladwy, gan ddangos asesiadau clinigol ac ymarfer trylwyr.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd tîm rheoli'r practis yn dangos gwybodaeth dda am redeg y practis yn effeithiol, ac roedd partneriaid y practis yn ymgymryd â rôl arwain ragweithiol. Roeddgan y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau o'u rolau a'u cyfrifoldebau, gyda thasgau a dyletswyddau yn cael eu dirprwyo'n glir. Roedd y staff yn ymddangos yn ymrwymedig i ofal cleifion ar y cyfan.

Roedd nifer o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol. Fodd bynnag, byddem yn argymhell bod y practis yn rhoi polisiau ar waith mewn perthynas â llywio gofal gyda llwybr, llif gwaith, hyfforddi/sefydlu hebryngwyr ac arfarniadau staff.

Mewn ymateb i'n harolwg staff, roedd tua hanner yr ymatebwyr yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi â'r holl ofynion croes o ran eu hamser yn y gwaith, bod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn briodol, a dywedodd nifer ychydig yn uwch o ymatebwyr eu bod yn teimlo bod y cymysgedd o sgiliau yn briodol.

Er bod hanner y staff yn teimlo eu bod yn gallu gwneud awgrymiadau i wella gwasanaethau yn y practis, nid oedd tua thri chwarter yr ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys bob amser mewn newidiadau sy'n effeithio ar eu gwaith.

Yn gadarnhaol, cytunodd y rhan fwyaf o'r staff nad yw eu gwaith yn cael effaith andwyol ar eu hiechyd, bod y practis yn gweithredu'n gadarnhaol mewn perthynas ag iechyd a llesiant, a bod eu patrwm gwaith yn caniatáu cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y practis yn eu hannog i roi gwybod am wallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau, a bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau nad yw'r rhain yn digwydd eto.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau'r staff a gwelsom fod nifer o wiriadau cyn cyflogi wedi cael eu cwblhau ar y staff i sicrhau eu bod yn addas i'w cyflogi.

Nododd y staff yn ein harolwg nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw asesiad iechyd galwedigaethol nac unrhyw wasanaeth a ddefnyddir gan y practis. Byddem yn awgrymu y dylid ystyried cynnal asesiad iechyd galwedigaethol ochr yn ochr â'r arferion sefydlu sy'n bodoli eisoes i gyflogeion newydd ac fel y bo angen i gyflogeion presennol.

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth ddiweddar i ddangos bod amrywiaeth o hyfforddiant wedi cael ei gwblhau, yn berthnasol i rolau a chyfrifoldebau. Roedd angen rhannu rhywfaint o hyfforddiant â'r staff ac roedd cynlluniau ar droed i fynd i'r afael â hyn. Roedd y staff clinigol wedi'u datblygu'n dda yn eu rolau. Fodd bynnag, cafodd y meysydd canlynol eu nodi gan y staff yn ein harolwg fel pynciau a fyddai'n ddefnyddiol yn eu barn nhw: codio (tri ymateb), gwasanaeth cwsmeriaid, hyfforddiant adfywio, a datblygiad proffesiynol yn gyffredinol.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oeddent wedi cael arfarniad nac adolygiad blynyddol yn ystod y 12 mis diwethaf.

Dylai'r practis roi proses arfarnu flynyddol ar waith i sicrhau y caiff unrhyw anghenion datblygu neu hyfforddi staff eu cofnodi'n rheolaidd.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd y cleifion yn gallu rhoi adborth wyneb yn wyneb, yn ysgrifenedig neu drwy ddull cwyno ffurfiol, a oedd yn gydnaws â phroses 'Gweithio i Wella' y GIG.

Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion ffurfiol. Cafodd y rhain eu cydnabod ac ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen briodol, a thrafododd tîm rheoli'r practis a'r partneriaid fanylion y cwynion i sicrhau y caiff gwersi eu dysgu.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd system addas ar waith i sicrhau bod gwybodaeth am gleifion, data, atgyfeiriadau a cheisiadau yn cael eu casglu, eu rhannu a'u cofnodi'n effeithiol.

Roedd yr holl gofnodion cleifion electronig a'r holl gofnodion cleifion papur yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno eu bod yn gallu cael mynediad at y systemau TG sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal a chymorth i'r cleifion.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd dull cadarnhaol o ymdrin ag archwiliadau clinigol a phrosiectau gwella ansawdd, yn seiliedig ar anghenion y practis a'r boblogaeth leol. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o archwiliadau meddyginiaeth a gynhaliwyd gan fferylllydd y practis.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd y practis yn ymwybodol iawn o anghenion y boblogaeth leol, a oedd yn cynnwys lefelau uchel o amddifadedd, trefniadau rheoli iechyd cymhleth a chronig, a phoblogaeth gleifion amrywiol. Roedd y practis yn gweithio ar y cyd â gwasanaethau a phractisau eraill yn y clwstwr i wella a chryfhau gwasanaethau er mwyn diwallu'r anghenion hyn.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod grŵp cyfranogiad cleifion wedi cael ei sefydlu'n ddiweddar. Roedd tîm rheoli'r practis a phartner meddyg teulu yn chwarae rôl weithredol yn y grŵp, ac roedd dau aelod o'r grŵp y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y deialog parchus a chadarnhaol sydd wedi cael ei gynnal hyd yma.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd siartiau llif ar gyfer anafiadau a achosir gan nodwydd wedi'u harddangos yn yr ystafelloedd trin / clinigau	Gallai hyn effeithio ar y staff yn gwneud penderfyniadau amserol ac effeithiol pe bai anaf a achosir gan nodwydd yn digwydd	Trafodwyd hyn â'r nyrs arweiniol	Cafodd siartiau llif eu creu a'u harddangos

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth:

Dyddiad yr arolygiad:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ddim yn gymwys					
2.					
3.					
4.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Meddygol Ringland

Dyddiad yr arolygiad: 17 Hydref 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Cynnal urddas a phreifatrwydd y cleifion	Dylai'r practis sicrhau bod cleifion yn ymwybodol bod yr ystafell ochr wrth ymyl y dderbynfa ar gael i gynnal sgysiau preifat.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal	Rhoddwyd poster yn y dderbynfa i hysbysebu'r defnydd o'r ystafell dawel ar gyfer cyfrinachedd cleifion. Caiff trafodaeth am yr ystafell dawel ei rhoi ar y sgrin galw cleifion (sef fideo sy'n esbonio pam mae'r ystafell dawel ar gael).)	Geraint Price	08/12/2025
2.	Er mwyn cynnal urddas a phreifatrwydd y cleifion a chefnogi clinigwyr i gyrraedd y safonau proffesiynol	Dylai'r practis sicrhau bod y cynnig o hebryngwr a'r penderfyniad i'w dderbyn ai peidio yn cael ei gofnodi mewn nodiadau'r cleifion	Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC): Archwiliadau personol a hebryngwyr	Mae polisi Hebryngwyr newydd bellach ar waith. Ac mae hyn wedi cael ei rannu â'r holl staff clinigol ac	Dr Morgan	Wedi'i gwblhau

				anghlinigol. Yn cynnwys cofnodi hebryngwyr.		
3.	Cynnal gofal diogel sydd wedi'i deilwra at yr unigolyn	Dylai'r practis sicrhau bod dewis iaith yn cael ei gofnodi'n rheolaidd a bod y staff yn cael eu hatgoffa i ddefnyddio Language Line a sut i gael gafael ar hyn.		Mae iaith bellach yn cael ei thrafod yn rheolaidd ar adeg cofrestru. A'i chofrestru. Dywedwyd wrth y cleifion am y defnydd o Language Line. Cynghorwyd aelodau o'r tîm clinigol i gofnodi'r iaith pan fyddant yn siarad â chlaf yn y feddygfa ac i gynnig Language Line lle y bo'n briodol.	Dr Morgan	Wedi'i gwblhau
4.	Cynnal rheolaethau atal a rheoli heintiau da	Dylai'r gwasanaeth sicrhau y caiff glanhau lefel uwch ei gynnwys ar ei amserlenni.		Mae amserlenni bellach wedi cael eu cyflwyno i bob ystafell ac anogir arferion glanhau rheolaidd yn yr ystafelloedd. Caiff hapwiriadau gan y tîm nyrsio / archwiliadau eu cwblhau i gadarnhau glendid	Damian Crowley	Wedi'i gwblhau

				ardaloedd clinigol / anghlinigol. Dywedwyd wrth dîm glanhau'r bwrdd iechyd am ganlyniad ymweliad AGIC.		
5.	Cynnal amgylchedd diogel	Dylai'r practis sicrhau na chaiff y silindrau ocsigen eu storio'n uniongyrchol ar y llawr.		Ni chaiff ocsigen ei storio ar y llawr mwyach a chaiff ei storio'n gywir ac yn ddiogel.	Damian Crowley	15/12/2025
6.	Cynnal cofnodion a gofal diogel ac effeithiol	Dylai'r practis ystyried archwiliad yn y dyfodol ar gysylltu meddyginiaethau a pharhau i wneud ymdrechion i wella nifer yr adolygiadau o feddyginiaethau.		Mae adolygiadau oportiwnistaidd o feddyginiaethau wedi cael eu cyflwyno gyda phob clinigydd. Bydd y fferylllydd yn arwain hyfforddiant ar gysylltu meddyginiaethau yn nodiadau'r cleifion.	James Taylor (Fferylllydd)	Parhaus - Mae hyfforddiant wedi dechrau a chaiff ei adolygu'n rheolaidd.
7.	Cynnal anghenion y gweithlu	Dylai'r practis roi proses arfarnu flynyddol ar waith i sicrhau y caiff unrhyw anghenion datblygu neu hyfforddi staff eu cofnodi'n rheolaidd.		Caiff arfarniadau blynyddol eu cynnal a'u trefnu'n rheolaidd. Sicrhau'r defnydd o blatfform digidol (team net) i gadw	Sarah Morgan	Parhaus

			ffeiliau adnoddau dynol yn gyfredol, gan gynnwys dyddiadau arfarniadau a system ddyddiadur electronig ar gyfer nodiadau atgoffa.		
--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Geraint T Price

Teitl swydd: Rheolwr Cangen

Dyddiad: 01/12/2025